



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Canllawiau Pontio a Throsglwyddo

Chwefror 2022



Canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli, trosglwyddo ac atebolrwydd
gwasanaethau gofal iechyd i blant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio
o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

Cynnwys

1 – Cyflwyniad.....	4
• Diffiniadau	
• Ein Nodau ar gyfer Pontio a Throsglwyddo gofal	
2 – Cydsyniad a Galluedd Meddyliol ar gyfer Pontio a Trosglwyddo gofal.....	6
3 – Egwyddorion gweithredu.....	8
• Adroddiad yr Uwch-arweinydd a'r Pwyllgor Pontio a Throsglwyddo	
4 – Cyn Pontio a Trosglwyddo gofal.....	12
• Nodi'r oedran priodol i ddechrau cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion	
• 13 i 14 oed	
• Gweithwyr Pontio a Trosglwyddo a enwir ("Gweithiwr a Enwir") – O wasanaethau Plant neu wasanaethau Oedolion Corff y GIG	
• Eiriolaeth Gofal Iechyd Annibynnol	
• Y Cynllun Pontio a Trosglwyddo	
• Rôl Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau: Gweithio gydag asiantaethau a gwasanaethau allanol	
• Tîm Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned	
5 – Adolygu'r Cynllun Pontio a Trosglwyddo i baratoi ar gyfer pen-blwydd y person ifanc yn 16 oed – "Adolygu'r THP ar gyfer pen-blwydd y person yn 16 oed".....	19
6 – Y plentyn a'r person ifanc yn ymuno â'r system gofal iechyd am y tro cyntaf yn 16 neu 17 oed.....	21
7 – Ansawdd ac amgylchedd y gwasanaeth.....	21
8 – Cwblhau Pontio a Trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.....	22
9 – Mesurau a argymhellir i fonitro ac adrodd ar ansawdd gwasanaethau a phrofiad y defnyddiwr.....	23
10 – Datrys Anghydfod.....	23

Atodiadau

Atodiad 1 – Fframwaith Strategol a Deddfwriaethol.....	25
Atodiad 2 – Seilwaith Ategol.....	30
• Adroddiad yr Uwch-arweinydd a'r Pwyllgor Pontio a Throsglwyddo	
Atodiad 3 – Siart Llif Pontio a Throsglwyddo.....	31
Atodiad 4 – Y Cynllun Pontio a Throsglwyddo Plant a Phobl Ifanc.....	34
Atodiad 5 – Siart Ilif (Plentyn a pherson ifanc (16-17 oed, hyd at ben blwydd y person ifanc yn 18 oed) a dderbynnir i leoliad gofal iechyd).....	48
Atodiad 6 – Ffurflen Monitro ac Adolygu – Pontio a Trosglwyddo.....	49
Atodiad 7 – Adnoddau Defnyddiol.....	50

1. Cyflwyniad

Mae darparu gofal iechyd priodol i blant a phobl ifanc rhwng 16 a 25 oed a throsglwyddo gofal ac atebolrwydd o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion wedi'i amlygu fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella. Cafodd hyn ei nodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru¹ a chan Gomisiynydd Plant Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf², gan alw am 'ofal trosiannol' o ansawdd da ar gyfer y grŵp hwn o'r boblogaeth, gan yr holl wasanaethau iechyd.

Dylai canllawiau NICE 2016³ ar bontio gael eu defnyddio gan yr holl wasanaethau iechyd. Dylai Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ystyried yr argymhellion o fewn canllawiau NICE a'r safonau ansawdd cysylltiedig⁴ i helpu plant a phobl ifanc a'u gofalwyr⁵ gael gwell profiad o bontio a throsglwyddo i wasanaethau oedolion drwy wella'r ffordd y caiff hyn ei gynllunio a'i gyflawni.

Diffiniadau

Plant a phobl ifanc	At ddibenion y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio'r term 'plant a phobl ifanc' i gyfeirio at bawb o'u genedigaeth, drwy blentynod a'u cyfnod fel oedolion ifanc hyd at 25 oed.
Gwasanaethau iechyd plant	Y gwasanaeth sy'n darparu gofal iechyd i'r baban, y plentyn a'r person ifanc, gan gynnwys yr holl ddarparwyr yn y lleoliad gofal sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau iechyd plant yn gofalu am blant hyd at 16 oed.
Gwasanaethau iechyd oedolion	Y gwasanaethau sy'n darparu gofal iechyd i oedolion o'u pen-blwydd yn 18 oed, gan gynnwys yr holl ddarparwyr yn y lleoliad gofal sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol.
Teulu a gofalwyr	Nodi a chydabod y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant ond efallai nad nhw yw'r rhiant biolegol (Mae hyn hefyd yn cynnwys rhieni corfforaethol h.y. lle mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb rhiant dros blant (weithiau yn ogystal â rhieni biolegol)).

Ein Nodau ar gyfer Pontio a Throsglwyddo Gofal:

- Darparu proses pontio a throsglwyddo ddiogel ac effeithiol o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen gofal a chymorth parhaus gan wasanaethau iechyd.

¹ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf>

² <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Adroddiad-Blynyddol-2018-19.pdf>

³ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng43>

⁴ <https://www.nice.org.uk/guidance/QS140>

- Canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd angen gwasanaethau gofal iechyd wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion. Bydd y canllawiau'n cynnwys plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd angen gofal iechyd wrth iddynt dyfu'n hŷn, ac sy'n dod ar draws ffiniau gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag oedran mewn perthynas â'r angen i drosglwyddo gofal clinigol ac atebolrwydd.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu canllawiau NICE yn gyson ledled Cymru, darparu cyfeiriad a thempled safonol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau Cymru ddatblygu canllawiau lleol cyson. Mae gan Fyrddau Iechyd ddyletswydd i ddarparu gofal iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaeth, waeth a ydynt yn eu darparu o fewn eu ffiniau eu hunain neu'n eu comisiynu gan Fyrddau Iechyd neu Ymddiriedolaethau eraill, yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru, i gyflawni safonau gofal cyfatebol.
- Darparu egwyddorion sy'n sail i drefniadau llywodraethu cadarn lleol a phrosesau a gweithdrefnau gweinyddol y disgwylir i wasanaethau lynu atynt. Ni ddylid torri ar draws gofal ac ni ddylai fod bylchau yn y ddarpariaeth.
- Dilyn dull seiliedig ar hawliau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan lawn yn y ffordd y caiff y broses o bontio a throsglwyddo gofal ei chynllunio, ei gweithredu a'i hadolygu. Dylid darparu gofal i blant a phobl ifanc mewn gwasanaethau i oedolion mewn ffordd sy'n briodol yn ddatblygiadol heb golli ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, gan sicrhau ymgysylltiad parhaus a phrofiad da i gleifion. Proses, nid digwyddiad, yw profiad plentyn o 'dyfu i fyny' i fod yn oedolyn, a gall rychwantu ystod oedran eang. Dylai gwasanaethau ymateb i anghenion unigol y plentyn a'r person ifanc yn hytrach na chymryd ymagwedd gaeth yn seiliedig ar oedran.
- Hyrwyddo sicrwydd y dylai plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr brofi proses bontio sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol iddynt ymdopi mewn gwasanaethau oedolion.
- Cadw at egwyddorion sylfaenol gofal darbodus, integredig, o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle gall pob unigolyn, waeth beth fo'i oedran, anabledd neu unrhyw nodweddion gwarchodedig, gael gwasanaeth addas, gan gynnig y sgiliau a'r arbenigedd cywir, gan gydymffurfio â Safonau Gofal Iechyd disgwyliedig GIG Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar ddull hawliau dynol, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nodir y fframwaith strategol a deddfwriaethol yn **Atodiad 1**.

- Cadw at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁶ sy'n darparu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd diogelu ar staff gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhaid i ganllawiau a gweithdrefnau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perthynas â diogelu gael eu cymhwyso'n briodol, sy'n cynnwys ystyried gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan⁷. Dyletswydd partneriaid perthnasol awdurdodau lleol (megis gofal iechyd) yw adrodd i'r awdurdod lleol cyfrifol os oes ganddynt reswm i gredu bod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg. Rhaid i'r staff fod wedi'u hyfforddi a meddu ar y sgiliau i wasanaethu'r grŵp oedran hwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Dylai pob gwasanaeth sy'n ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc gymryd cyfrifoldeb am rannu gwybodaeth ddiogelu â sefydliadau eraill, yn unol â pholisïau rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd lleol.

2. Cydsyniad a galluedd meddyliol ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal

Dylai pontio fod yn broses bwrpasol ac wedi'i chynllunio a ddarperir fel elfen graidd o ofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n briodol yn gorfforol ac yn ddatblygiadol. Yn unol â CCUHP⁸, dylai pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Mae pen-blwydd person yn 18 oed yn cynrychioli'r llinell gyfreithiol rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn. Rhagdybir bod gan blant a phobl ifanc rhwng 16 a 17 oed ddigon o alluedd i benderfynu ar eu triniaeth feddygol eu hunain, oni bai bod tystiolaeth sylweddol i awgrymu fel arall. Fodd bynnag, yn wahanol i oedolion, o dan rai amgylchiadau gall rhiant, rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant neu lys fynd yn erbyn eu penderfyniad i wrthod triniaeth. Mae hyn yn unol â'r brif ddyletswydd i weithredu er budd gorau plentyn.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005⁹ (MCA) yn berthnasol i blant sy'n 16 oed a hŷn. Mae galluedd meddyliol yn bresennol os gall person ddeall gwybodaeth a roddir iddo, cadw'r wybodaeth a roddir iddo yn ddigon hir i wneud penderfyniad, pwysu a mesur manteision ac anfanteision y cwrs triniaeth arfaethedig er mwyn gwneud penderfyniad a chyfathrebu ei benderfyniad.

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, rhaid tybio fod gan berson alluedd oni phrofir nad oes ganddo alluedd.

⁶ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents>

⁷ <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Canllawiau-Amddiffyn-Plant-Cymru-Gyfan.pdf>

⁸ [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Testun llawn - Comisiynydd Plant Cymru\(complantcymru.org.uk\)content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf](https://complantcymru.org.uk/content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf)

⁹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents>

Rhaid gwneud pob ymdrech i annog a chefnogi'r person i wneud y penderfyniad drosto'i hun. Os bydd person yn gwneud penderfyniad yr ystyrir ei fod yn annoeth, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oes gan y person y gallu i wneud y penderfyniad. Os oes rhesymau dros gredu nad oes gan blentyn neu berson ifanc sy'n 16 oed neu'n hŷn alluedd, dylid cynnal asesiad o alluedd¹⁰ i gydsynio a'i gofnodi yng nghofnod meddygol y plentyn neu'r person ifanc. Efallai na fydd diffyg galluedd yn gyflwr parhaol. Dylai asesiadau o alluedd fod yn benodol i amser a phenderfyniadau.

Os nad oes gan blentyn neu berson ifanc y galluedd i gydsynio, gellir ei drin heb ei gydsyniad o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar yr amod nad yw'r driniaeth yn golygu colli rhyddid.¹¹

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er efallai nad oes gan blentyn neu berson ifanc y galluedd i wneud penderfyniadau yn annibynnol am ei ddewisiadau triniaeth, efallai y bydd yn dal i allu cymryd rhan yn ystyrllon a dylanwadu ar y broses. Dylai plant a phobl ifanc gael cymorth i sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau cyn belled ag y bo modd.

Os nad yw plentyn neu berson ifanc yn gymwys i roi neu atal cydsyniad, gall person sydd â chyfrifoldeb rhiant roi cydsyniad, ar yr amod bod y person hwnnw'n gallu cydsynio ac yn gallu cyfathrebu ei benderfyniad.

Gallai'r person hwn gynnwys:

- mam neu dad y plentyn
- gwarcheidwad y plentyn a benodwyd yn gyfreithiol
- person sydd â gorchymyn preswyllo yn ymwneud â'r plentyn
- awdurdod lleol sydd wedi'i ddynodi i ofalu am y plentyn
- awdurdod lleol neu berson sydd â gorchymyn amddiffyn brys ar gyfer y plentyn

Os bydd rhiant yn gwrthod rhoi cydsyniad i driniaeth benodol, gall y llysoedd fynd yn erbyn y penderfyniad hwn os credir bod triniaeth er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc.

Os bydd angen cymorth ar blentyn neu berson ifanc cymwys i roi barn neu safbwynt, neu os yw ei farn yn wahanol i farn ei deulu neu ei ofalwyr, dylid gwneud cynnig rhagweithiol i ddefnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol.

¹⁰ <https://pathways.nice.org.uk/pathways/decision-making-and-mental-capacity>

¹¹ Bydd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn cyflwyno'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) newydd yn lle'r cynllun Amddifadu o Ryddid (DoLS) presennol, a bydd yn berthnasol i bob lleoliad a hefyd i bobl ifanc 16 ac 17 oed. O dan yr LPS, pan fo'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth ar gyfer unigolyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, rhaid i'r amddifadu o ryddid hwn fod wedi'i awdurdodi.

Efallai y bydd plant neu bobl ifanc o dan 16 oed yn dal yn gallu rhoi cydsyniad drostynt eu hunain, ar yr amod eu bod yn ddigon aeddfed i ddeall yn iawn beth sy'n digwydd. Gelwir hyn yn gymhwysedd Gillick. Os nad oes gan berson o dan 16 oed gymhwysedd Gillick ac felly y bernir nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio, gall rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant neu'r llys roi cydsyniad ar ei ran. Fodd bynnag, mae dyletswydd o hyd i gadw buddiannau gorau'r plentyn wrth wraidd unrhyw benderfyniad, a dylai'r plentyn neu'r person ifanc fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau cyn belled ag y bo modd.

Cynnwys y teulu a gofalwyr

Er bod pontio a throsglwyddo yn aml yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc, dylid nodi bod amgylchiadau'r teulu a gofalwyr yn aml yn newid hefyd yn y ffordd y maent yn cefnogi ac yn gofalu am y plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bwysig trafod y pontio gyda theulu a gofalwyr y plentyn neu'r person ifanc i ddeall eu disgwyliadau ynghylch pontio a throsglwyddo. Dylid cynnig cyngor a chymorth i'r teulu a gofalwyr ynghylch gwasanaethau a chymorth arall y gallai fod ganddynt hawl i'w cael.

Dylid ystyried cynnwys teuluoedd a gofalwyr ond rhaid ystyried dymuniadau plentyn neu berson ifanc, felly gall teuluoedd a gofalwyr gael eu heithrio. Dylid gofyn yn rheolaidd i'r plentyn neu'r person ifanc sut yr hoffai i'w deulu neu ei ofalwyr gymryd rhan gydol y broses pontio a throsglwyddo, gan gynnwys pan fydd wedi symud i wasanaethau ieuchyd oedolion.

3 Egwyddorion gweithredu

Dylai byrddau ieuchyd ac ymddiriedolaethau sicrhau bod adborth gan y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gofnodi fel bod llais y plentyn neu'r person ifanc wrth wraidd unrhyw benderfyniad am ei ofal.

Dylai fod gofal parhaus ar draws yr holl wasanaethau.

Dylid cynnal cyfarfodydd blynyddol gyda gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion i adolygu'r plant a'r bobl ifanc sy'n nesáu at y cyfnod pontio a throsglwyddo er mwyn caniatáu i'r timau sy'n derbyn gynllunio gwasanaethau'n effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrddau ieuchyd ac ymddiriedolaethau gadw at 5 egwyddor allweddol y dull hawliau plant fel y'u nodwyd gan y Comisiynydd Plant wrth weithredu'r canllawiau hyn:

1. Ymgorffori hawliau:
Sicrhau bod y Canllawiau'n cysylltu â hawliau plant priodol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a hawliau dynol eraill megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y neges bod ganddynt yr hawl i gael y gwasanaethau hyn gan fod ganddynt yr hawl i gael gofal iechyd, i gael eu clywed, i gael eu cefnogi i gyflawni eu potensial.
2. Cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu:
Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i archwilio'n ofalus pa grwpiau o blant a phobl ifanc a allai wynebu mwy o rwystrau i gael mynediad at wasanaethau nag eraill a rhoi mesurau ar waith i liniaru hyn. Dylent ystyried hefyd a wahaniaethir yn erbyn plant a phobl ifanc, yn enwedig os ydynt yn anabl, yn gyffredinol e.e. drwy beidio â bod â llwybr clir ar gyfer plant a phobl ifanc 16 neu 17 oed sydd angen gofal eilaidd am y tro cyntaf, neu sy'n cyrraedd lleoliad angen gofal brys.
3. Grymuso:
Dylid hysbysu plant a phobl ifanc gan ddefnyddio dulliau hygyrch am eu hawliau o ran pontio a throsglwyddo gofal. Dylent allu cael mynediad at eiriolwr annibynnol lle bo angen.
4. Cyfranogiad:
Dylai plant a phobl ifanc allu cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal eu hunain, fel y trafodir gydol y canllawiau hyn. Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau hefyd gynnwys grwpiau o blant a phobl ifanc i gynghori ar drefniadau i weithredu'r canllawiau hyn gan ddefnyddio Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc¹².
5. Atebolrwydd:
Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sicrhau bod trefniadau digonol ar gyfer ymateb i unrhyw gwynion a wneir am wasanaethau pontio a throsglwyddo gan y plentyn neu'r person ifanc, yn unol â'r Rheoliadau Gweithio i Wella¹³. Dylai hyn fod yn rhan o'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Dylent hefyd wneud eu cynnydd o ran gweithredu trefniadau pontio a throsglwyddo yn dryloyw i'r plentyn neu'r person ifanc a, lle maent wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc, dylent egluro sut y defnyddiwyd eu barn i ddatblygu gwasanaethau.

¹² <https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc>

¹³ [Cwynion a phryderon am GIG Cymru: Gweithio i Wella | LLYW.CYMRU](#)

Wrth ddatblygu trefniadau pontio a throsglwyddo lleol, dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gymhwyso'r egwyddorion canlynol i'r unigolyn – gan ystyried y plentyn a'r person ifanc, ei deulu neu ei ofalwyr ym mhob achos, yn amodol ar ddymuniadau'r unigolion cymwys. (gweler **Blwch 1**).

Blwch 1: Egwyddorion sy'n sail i ddarparu gofal unigol ar gyfer pontio a throsglwyddo rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion

(gan ystyried y plentyn a'r person ifanc, ei deulu neu ei ofalwyr ym mhob achos, yn amodol ar ddymuniadau'r unigolion cymwys)

1. Sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r plentyn a'r person ifanc wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau, gyda gofal diogel, ymatebol a phroses pontio a throsglwyddo wedi'i chynllunio'n dda.
2. Hyrwyddo mynediad cynnar a rhwydd at ofal a chymorth, yn enwedig i'r rhai sydd mewn argyfwng neu ag anabledd neu o dan anfantais.
3. Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau statudol megis gofal cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol ac asiantaethau gwirfoddol lle bynnag y bo angen cydweithredu i ddiwallu anghenion.
4. Sicrhau mynediad at wybodaeth a dewisiadau ynghylch rhoi cydsyniad dilys, mynediad at gymorth eiriolaeth priodol a gwybodaeth glir a chynnig eiriolaeth annibynnol priodol ynghylch Gweithio i Wella i wneud cwyn neu sylwadau. Darperir cymorth a chynghor i blant a phobl yng Nghymru drwy linell gymorth Meic Cymru¹⁴.
5. Bod â strwythurau cynllunio, monitro a llywodraethu cryf i gynnig sicrwydd drwy drefniadau adrodd, gan sicrhau adborth sy'n cipio llais a barn yr unigolyn mewn fformat addas.

Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc o dan CCUHP i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (erthygl 12), i dderbyn gwybodaeth o ansawdd da (erthygl 13), i gael eu hamddiffyn rhag niwed (erthygl 19), i gael cymorth ychwanegol os ydynt yn anabl (erthygl 23), i dderbyn gofal iechyd o ansawdd da (erthygl 24) ac i oedolion weithredu er budd gorau'r plentyn (erthygl 3).

¹⁴ <https://www.meiccymru.org/cym/>

Uwch-arweinydd Pontio a Throsglwyddo

Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fod â mecanwaith atebolrwydd a chyflenwi clir ar waith, sy'n cynnwys nodi a dynodi uwch-arweinydd i adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a fydd yn atebol am sicrhau bod y canllawiau pontio a throsglwyddo yn cael eu gweithredu, a sicrhau ansawdd y canllawiau hynny, ar draws yr holl wasanaethau sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol. Bydd yr uwch-arweinydd yn gyfrifol am hyrwyddo pontio a throsglwyddo ar lefel strategol.

Bydd yr uwch-arweinydd a nodwyd yn hanfodol i weithredu'r broses pontio a throsglwyddo yn effeithiol ac yn gydgyssylltiedig rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

Dylai'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr uwch-arweinydd dynodedig:

- yn meddu ar brofiad clinigol priodol (er enghraifft, mewn maes fel Meddygol, Nyrsio, Bydwreigiaeth, Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd neu Iechyd y Cyhoedd);
- yn gallu darparu cyfeiriad strategol cyffredinol gyda'r nod o sicrhau bod y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth yn bodloni gofynion y canllawiau;
- yn gallu sicrhau gwaith partneriaeth cryf ar draws gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion;
- yn gallu nodi a datrys problemau a gwrthdaro cyn gynted â phosibl rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion;
- yn llunio adroddiad blynyddol i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd
- yn gallu uwchgyfeirio materion i Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd, fel y bo'n briodol.

Ceir rhagor o fanylion am rôl yr uwch-arweinydd Pontio a Throsglwyddo yn **Atodiad 2**.

Dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ystyried fframweithiau deddfwriaethol a pholisi allweddol a dyletswyddau sy'n cynnwys:

- Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol¹⁵ yn nodi model newydd o gynllunio a darparu ar gyfer gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau mewn ysbytai, a'r sgiliau a'r technolegau sydd eu hangen i'w cefnogi, fel rhan o'r cynnig iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r Fframwaith yn nodi system iechyd sy'n cael ei chydgyssylltu'n genedlaethol a'i chyflwyno'n lleol neu drwy gydweithrediadau rhanbarthol. Caiff ei hategu gan gyfres o ymrwymadau newydd a amlinellir yn 'Datganiadau Ansawdd'.

¹⁵ <https://llyw.cymru/fframwaith-clinigol-cenedlaethol-system-ddysgu-iechyd-gofal>

Mae'r datganiadau ansawdd hyn yn cyd-fynd â baich clefydau'r boblogaeth a byddant yn cefnogi trawsnewid gwasanaethau yn yr ardaloedd hyn. Yn y pen draw, byddant yn ceisio gwella ansawdd gwasanaethau clinigol a, thrwy hynny, y canlyniadau y maent yn eu cyflawni.

Maent yn bodoli ochr yn ochr ag ymrwymadau polisi trawsbynciol eraill ar atal clefydau, mynediad at wasanaethau diagnostig a darpariaeth gofal diwedd oes dda, ac yn integreiddio â nhw. Bydd angen i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau ymateb i'r Fframwaith gyda'u cynllunio gwasanaethau clinigol, eu dulliau gwella ansawdd a'u hymddygiadau ymarfer darbodus eu hunain. Wrth wraidd y dull newydd hwn fydd rôl swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG a disgwyliadau a nodir mewn llwybrau clinigol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

- Dyletswydd economaidd gymdeithasol: Dylai Byrddau Iechyd ystyried y ddyletswydd economaidd gymdeithasol¹⁶ sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

4 Cyn Pontio a Throsglwyddo Gofal:

Nodi'r oedran priodol i ddechrau cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

Mae paratoi a chynllunio'n gynnar ar gyfer y cyfnod pontio yn hanfodol er mwyn rheoli disgwyliadau a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac felly'n cael eu grymuso. Rhaid i gynllunio fod yn seiliedig ar ddatblygiad corfforol, aeddfedrwydd emosiynol ac amgylchiadau lleol plant a phobl ifanc.

Dylai pontio a throsglwyddo gofal iechyd yn dda fod yn broses a rennir ac a gydgyhyrchir rhwng y plentyn neu'r person ifanc a gweithwyr iechyd proffesiynol, eu teulu a'u gofalmwr ac unrhyw wasanaethau statudol perthnasol eraill megis Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

¹⁶ <https://llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg>

Dylai pontio a throsglwyddo gofal osgoi gwneud i'r plentyn neu'r person ifanc deimlo ei fod yn cael ei wthio i wasanaethau anghyfarwydd heb unrhyw gymorth. Dylid cynnig parhad gofal yn ystod cyfnod pontio a throsglwyddo, fel sy'n ofynnol i'r plentyn neu'r person ifanc feithrin perthynas â'r gweithwyr ieuchyd proffesiynol a fydd yn parhau â'u gofal.

Dylai cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo gael ei deilwra i anghenion a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, yn hytrach na bod yn seiliedig ar oedran mympwyol. Ni ddylid gwrthod mynediad i unrhyw blentyn neu berson ifanc at wasanaeth priodol, diogel o safon ar sail oedran. Bydd gan wasanaethau penodol wahanol drothwyon oedran sy'n cael eu sbarduno'n aml gan fframweithiau cyfreithiol. O ganlyniad, efallai y bydd angen cysoni'r rhain drwy gytundeb ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd angen amryw o wasanaethau.

Ar ddechrau'r broses o symud i wasanaethau oedolion, dylid darparu gwybodaeth yn benodol i'r teulu a'r gofawyr i fynd i'r afael â materion y maent yn debygol o'u hwynebu mewn fformatau neu gan ddefnyddio dulliau sy'n gyfarwydd ac yn hygyrch.

13 i 14 oed

Pan fo'r plentyn neu'r person ifanc rhwng 13 a 14 oed, dylai'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth nodi ei anghenion a'i ddymuniadau gofal ieuchyd er mwyn cael cymorth i gynllunio'r cyfnod pontio a throsglwyddo gofal o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Bydd cynllunio a pharatoi'n gynnar yn helpu i'w wneud yn brofiad mwy cadarnhaol ac yn magu hyder ac annibyniaeth ar gyfer pontio a throsglwyddo i wasanaethau oedolion. Bydd datblygiad pob plentyn neu berson ifanc yn wahanol, felly mae angen i gynlluniau a gwasanaethau ystyried hyn.

Mae pennu oedran o 13 i 14 ar gyfer y mecanwaith i ddechrau ystyried y cyfnod pontio a throsglwyddo yn bwysig, hyd yn oed os yw hyn yn arwain at benderfyniad i beidio â dechrau'r broses. Mae'n bwysig gwneud penderfyniad gweithredol ynghylch yr amser priodol a'r cynllun gofal ieuchyd yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a'i ofawyr ar adeg briodol ond cynnar.

Gweithwyr Pontio a Throsglwyddo a enwir ("Gweithiwr a Enwir") – O wasanaethau Plant neu wasanaethau Oedolion Corff y GIG

Bydd gweithiwr Pontio a Throsglwyddo a enwir ("Gweithiwr a Enwir") a fydd yn cael ei nodi a'i benodi o wasanaethau plant neu wasanaethau oedolion Corff y GIG i gefnogi'r broses o bontio a throsglwyddo gofal ieuchyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Bydd yn darparu data a fydd yn caniatáu i'r uwch-arweinydd a nodir adrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth ac i'r Bwrdd Gweithredol yn ôl y gofyn.

Pan fo gofal iechyd person ifanc yn cael ei oruchwyllo gan dîm amlddisgyblaethol (MDT¹⁷), dylai'r Gweithiwr a Enwir fynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen/ bod yn aelod craidd yn gynnwys mewn unrhyw broses bontio.

Bydd y Gweithiwr a Enwir yn weithiwr iechyd proffesiynol sy'n gwneud cyfraniad allweddol at gydgyssylltu a hyrwyddo parhad ac integreiddiad gofal iechyd y plentyn neu'r person ifanc. Mae ei rôl yn debygol o gwmpasu'r canlynol:

- Rheoli pontio a throsglwyddo gofal iechyd rhwng lleoliadau gofal.
- Cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i gydgyssylltu cynlluniau a gwasanaethau gofal iechyd yn ystod y cyfnod o bontio a throsglwyddo atebolrwydd clinigol am ofal.
- Rheoli disgwyliadau ynghylch sut y gallai gwasanaethau oedolion gael eu ffurfweddu a'u cyflenwi'n wahanol.
- Sicrhau y cytunwyd ar gynlluniau gofal iechyd gyda'r plentyn neu'r person ifanc (a, lle bo'n berthnasol, y teulu a'r gofalwyr).
- Cydgysylltu crynodeb o'r holl anghenion gofal iechyd, yn enwedig lle mae anghenion iechyd cymhleth.
- Cysylltiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'r gwahanol weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'i ofal ar draws pob lleoliad gofal, yn enwedig lle mae cynlluniau statudol ar waith.
- Casglu asesiadau sy'n bodoli eisoes gan weithwyr iechyd proffesiynol allweddol yn nhîm amlddisgyblaethol y plentyn neu'r person ifanc.
- Sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwybod â phwy i gysylltu pan fydd angen help neu gyngor, boed gan y Gweithiwr a Enwir neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol arall.
- Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol megis anghenion gofal iechyd neu unrhyw bryderon diogelu yn cael eu rhannu ag asiantaethau eraill, yn unol â threfniadau llywodraethu gwybodaeth, i hyrwyddo darparu gwasanaethau amlasiantaethol integredig ar gyfer diogelwch a lles y plentyn neu'r person ifanc.
- Hyrwyddo ac eirioli dymuniadau a safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn sicrhau mynediad priodol iddyn nhw a'u teulu neu eu gofalwyr at yr holl wasanaethau gofal iechyd angenrheidiol a gwasanaethau ehangach fel y bo'n briodol.
- Bod yn ffynhonnell o wybodaeth hygyrch am eiriolaeth gofal iechyd fel rhan o gymorth ehangach.
- Cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a'i ofalwr i gael cymorth eiriolaeth gofal iechyd annibynnol priodol.
- Trefnu apwyntiadau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, gweithredu fel ei gynrychiolydd, ei gyfeirio at wasanaethau a ffynonellau cymorth eraill a chefnogi teulu a gofalwyr y plentyn a'r person ifanc os yw'n briodol.

¹⁷ Grŵp o weithwyr proffesiynol o un neu fwy o ddisgyblaethau clinigol neu sefydliadau partner yw Tîm Amlddisgyblaethol sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chleifion unigol.

- Sicrhau cydgysylltu trawsffiniol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc os rhoddir gofal ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
- Bod ar gael i gydgysylltu cymorth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc a'i deulu a'i ofalwyr am o leiaf 6 mis ar ôl trosglwyddo gofal. Bydd yr union amser yn seiliedig ar angen clinigol unigol a dylai unrhyw benderfyniad ynghylch amserlenni gael ei drafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc.
- Cefnogi'r plentyn a'r person ifanc i roi adborth ar eu profiad.

Dylai'r Gweithiwr a Enwir gymryd rhan gydol y broses pontio a throsglwyddo, gan gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc cyn ac ar ôl trosglwyddo am o leiaf 6 mis neu hyd nes y cytunir ar amser gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu a'i ofalwyr.

Bydd y Gweithiwr a Enwir o'r gwasanaeth iechyd plant yn rhywun sydd wedi'i leoli o fewn tîm gofal presennol y plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r tîm amlddisgyblaethol presennol fod yn ymwybodol o anghenion, hanes a gofynion iechyd a gofal y plentyn neu'r person ifanc ac, yn aml, maent yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth gyfredol gadarn i'r tîm amlddisgyblaethol sy'n derbyn i gynllunio'r gofal mwyaf priodol wrth symud ymlaen.

Dylai'r Gweithiwr a Enwir barhau i weithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc ar ôl pontio a throsglwyddo i wasanaethau oedolion am o leiaf 6 mis i helpu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn rheolaeth gofal iechyd y plentyn neu'r person ifanc.

Dylai'r plentyn neu'r person ifanc helpu i benderfynu pwy ddylai'r Gweithiwr a Enwir fod. Er enghraifft, gallai fod yn weithiwr nyrsio proffesiynol, gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd, gweithiwr meddygol proffesiynol. Gallai hefyd fod yn rhywun sydd eisoes â'r teitl gweithiwr allweddol neu weithiwr pontio. Mewn meysydd clinigol lle mae nifer fawr o blant a phobl ifanc yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion (e.e. y rhai sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc sydd â chyflyrau hirdymor), efallai y bydd unigolyn arweiniol eisoes yn yr arbenigedd hwnnw sy'n gyfrifol am bontio a throsglwyddo gofal.

Dylai'r tîm amlddisgyblaethol presennol adolygu dyraniad y Gweithiwr a Enwir ar adegau allweddol yn y broses bontio. Gall y broses bontio fod yn hir a disgwylir y bydd y Gweithiwr a Enwir yn newid dros amser.

Rhaid trafod unrhyw newidiadau i'r Gweithiwr a Enwir gyda'r plentyn a'r person ifanc. Dylid rhoi trefniadau lleol ar waith i ddarparu sicrwydd yn ystod unrhyw absenoldeb y Gweithiwr a Enwir a dylai'r plentyn a'r person ifanc gytuno ar unrhyw newidiadau.

Eiriolaeth Gofal Iechyd Annibynnol

Dylai cymorth ac Eiriolaeth Gofal Iechyd Annibynnol fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc. Dylai'r Gweithiwr Pontio a Throsglwyddo a Enwir fod yn ffynhonnell o wybodaeth hygyrch am eiriolaeth gofal iechyd fel rhan o gymorth ehangach.

Dylai Eiriolaeth Gofal Iechyd Annibynnol fod yn gynnig rhagweithiol a wneir cyn i'r daith bontio ddechrau, a dylai fod yn briodol yn ddatblygiadol i'r plentyn neu'r person ifanc ac ystyried unrhyw anawsterau cyfathrebu.

Dylai gwasanaethau Eiriolaeth Gofal Iechyd Annibynnol gynnwys cymorth mewn perthynas â mynediad at wybodaeth a dewisiadau ynghylch rhoi cydsyniad dilys am driniaeth, yn ogystal â chymorth ynghylch Gweithio i Wella i ganiatáu i blentyn neu berson ifanc wneud cwyn neu sylwadau am y driniaeth y mae wedi'i chael.

Gall Eiriolwr Gofal Iechyd Annibynnol helpu plentyn neu berson ifanc i gael gwybodaeth, archwilio opsiynau a gweithredu ond, gydol y broses pontio a throsglwyddo, bydd yr Eiriolwr Gofal Iechyd Annibynnol yn cael ei gyfarwyddo gan y plentyn neu'r person ifanc ac ond yn gweithredu ar ei ran. Rôl yr Eiriolwr Gofal Iechyd Annibynnol yw sicrhau bod dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu mynegi a'u clywed.

Yn ogystal â'r uchod, mae rôl yr Eiriolwr Gofal Iechyd Annibynnol hefyd yn cynnwys y canlynol:

Cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i:

- Siarad am ei deimladau am ei ofal iechyd;
- Gwneud penderfyniadau a rhoi cydsyniad gwybodus am ei ofal iechyd;
- Herio penderfyniadau am ei ofal iechyd a darparu cymorth os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cytuno â phenderfyniadau am ei ofal iechyd;
- Cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i godi pryderon yn gynnar ac os na ellir datrys y mater drwy wneud cwynion o dan Gweithio i Wella.

Y Cynllun Pontio a Throsglwyddo

Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion Gynllun Pontio a Throsglwyddo (THP) wedi'i ddogfennu, neu ddogfen gyfwerth¹⁸, i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gallu cael gafael ar wybodaeth hanfodol am y plentyn neu'r person ifanc. (*gweler Atodiad 4*).

Mae'r THP yn ddogfen y gall y plentyn neu'r person ifanc ei gario gydag ef wrth fynychu apwyntiadau gofal iechyd. Dylai'r plentyn neu'r person ifanc gael gwybodaeth am ei gyflwr a'i gynllun gofal ar ffurf y gall ei deall. Mae'r THP yn cynnwys gwybodaeth am anghenion, hanes a gofynion gofal y plentyn neu'r person ifanc.

¹⁸ Gall gwasanaethau CAMHS gynnig Pasbort i Bobl Ifanc neu Gynllun Gofal a Thriniaeth a ddylai gynnwys yr un wybodaeth ag a ddisgrifir ar gyfer y THP. Dylai cynlluniau gofal a chymorth statudol eraill gynnwys y wybodaeth hon hefyd.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig iddo, y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen a'r amserlen. Gall cynllunio pontio a throsglwyddo ddechrau cyn 13-14 oed gan y gallai fod gan rai cyflyrau meddygol drefniadau penodol ar waith yn barod. Ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, sy'n gweld cleifion hyd at 18 oed fel mater o drefn, gall cynllunio ddechrau ychydig yn ddiweddarach.

Bydd y THP yn cael ei gydgyhyrchu mewn ymgynghoriad â'r plentyn neu'r person ifanc, y teulu, gofalmwr a gweithwyr iechyd proffesiynol gyda chymorth y Gweithiwr a Enwir, gan ddefnyddio adnoddau fel 'Un dau tri, i fwrdd â ni'¹⁹. Gellir gwneud y THP yn berthnasol i'r unigolyn a dylai fod yn broses barhaus ac esblygol y dylid ei haddasu i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnwys y plentyn neu'r person ifanc a bod yn ymatebol i'w ddymuniadau, ei deimladau a'i anghenion ar bob cam. Efallai y bydd gan rai cyflyrau meddygol gynllun pontio a throsglwyddo penodol²⁰ neu gynlluniau statudol eraill ar waith yn barod. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylid dyblygu a dim ond i wella neu gynorthwyo trafodaethau yn ôl yr angen y dylid defnyddio'r THP o fewn y canllawiau hyn.

Dylai'r THP gael ei gysylltu neu ei integreiddio â chynlluniau gofal eraill (e.e. y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ADY, y Cynllun Gofal Parhaus neu'r Cynllun Gofal a Chymorth, y Cynllun Iechyd Meddwl, y Cynllun Gofal Diwedd Oes). Dylid adolygu a diweddarau'r THP ar adegau priodol.

Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Gynllun Gofal a Chymorth. Un o nodweddion allweddol y cynllun hwnnw yw iechyd y plentyn neu'r person ifanc. Tua 16 oed, bydd cynllun Gofal a Chymorth plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei ddatblygu ymhellach yn Gynllun Llwybr. Mae'r Cynllun Llwybr hwn yn adeiladu ar y Cynllun Gofal a Chymorth gwreiddiol i gynnwys cynlluniau ar gyfer pontio tuag at fod yn oedolyn ac annibyniaeth. Dylai'r THP yn y canllawiau hyn fod yn rhan o elfen 'iechyd' cynlluniau Gofal a Chymorth/Llwybr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu bobl ifanc sy'n gadael gofal²¹.

Rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc sydd â chyflyrau hirdymor a ddechreuodd yn ystod plentyndod gael cynnig dewisiadau ynghylch pontio a throsglwyddo gofal ar adeg a bennir gan ei anghenion cyffredinol, gan gynnwys unrhyw ganllawiau cenedlaethol sy'n benodol i gyflwr (e.e. ar gyfer diabetes, asthma, epilepsi, iechyd meddwl, parllys yr ymennydd, nychdod cyhyrol Duchenne, anaf trawmatig i'r ymennydd).

¹⁹ [TIER Network - TIER Professionals Homepage \(readysteadygo.net\)](https://www.tier-network.org.uk/tier-professionals-homepage)

²⁰ Mae hyn yn wir am bontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl Plant a'r Glasoed a gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, yn ogystal â phontio rhwng gwasanaethau diabetes i blant a gwasanaethau diabetes i oedolion

²¹ Nodir manylion ynghylch y cynlluniau, gan gynnwys yr hyn sydd ynddynt, yn y Cod Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Pennod 1 \(t. 14,15\) a phennod 5 \(t. 82\)](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf>

Ni ddylai'r plentyn a'r person ifanc orfod ailadrodd ei stori yn ddiangen. Dylid ei annog i gyfrannu at ddatblygu ei wybodaeth gofal iechyd ei hun ar gyfer y THP er mwyn helpu i hwyluso'r broses o bontio a throsglwyddo gofal.

Dylai gwybodaeth fod ar gael yn rhwydd ac mewn fformat hygyrch i'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu, gan annog ymgysylltiad, esbonio'r broses, eu hawliau a'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan gaiff y gofal ei drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Ym mhob achos, rhaid ysgrifennu a rhannu cynllun ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal y plentyn neu'r person ifanc o'r naill wasanaeth i'r llall.

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011²², dylid cynnwys gwasanaethau Cymraeg mewn prosesau cynllunio a darparu a dylid cynnig gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt.

Dylai'r THP gael ei gefnogi gan systemau TG cyffredin er mwyn i wybodaeth gael ei rhannu drwy blatfformau ar-lein diogel, gyda chydsyniadau priodol i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i bawb.

Mae hwn yn ddata hanfodol ar gyfer parhau i fonitro a sicrhau ansawdd. Gyda'r symudiad cynyddol i systemau TG integredig (e.e. WCCIS), dylai gwybodaeth gael ei rhannu'n rhwydd ar draws asiantaethau.

Rôl Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau: Gweithio gydag asiantaethau a gwasanaethau allanol

Dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau sicrhau ymgysylltiad cynnar ag asiantaethau allanol, gan gynnwys y Trydydd Sector, a gwasanaethau iechyd lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau cynllunio rhagweithiol ar gyfer pontio esmwyth. Dylai fod cyfnod o gydweithio rhwng gwasanaethau hyd at ac ar ôl y cyfnod pontio a throsglwyddo, gan bwysleisio parhad gofal ac atebolrwydd clinigol clir.

Disgwylir i asiantaethau a gwasanaethau gydweithio ac ymgysylltu ag unrhyw sefydliad y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ymwneud ag ef. Hefyd, mae'n bwysig bodloni safonau diogelu a bod canllawiau clir ar brotocolau rhannu gwybodaeth ar waith.

Dylai'r gwasanaethau cymorth ar gyfer y cyfnod pontio a throsglwyddo fod yn seiliedig ar gryfderau a chanolbwyntio ar anghenion a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc. Mae meithrin cydnherthedd yn rhan bwysig o ofal parhaus ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Dylai gwybodaeth fod ar gael am sut y gall gael gafael ar gymorth i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol a hamdden.

²² <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents>

Dylai fod gan wasanaethau ddull clir o wneud penderfyniadau i reoli cais unigolyn i drosglwyddo i wasanaethau oedolion. Rhaid rhoi rhesymau os gwrthodir cais. Mae angen i asiantaethau gytuno pwy ddylai fod y Gweithiwr a Enwir ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc i helpu i gydgyssylltu pontio a throsglwyddo ar draws amryw o wasanaethau.

Gall y broses o bontio a throsglwyddo gofal ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion lluosog neu gyflyrau cymhleth rychwantu amryw o weithwyr proffesiynol, arbenigeddau ac asiantaethau. Bydd dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau yn sicrhau gofal effeithiol i'r plentyn neu'r person ifanc, cyfathrebu da, ymgysylltiad a pharhad gofal, ac yn sicrhau bod y staff yn deall rolau a chyfrifoldebau yn glir.

Tîm Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned

Rhaid i'r Gweithiwr a Enwir sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ynghylch Pontio a Throsglwyddo yn cael eu cyfathrebu'n briodol i'r tîm Gofal Iechyd Sylfaenol (sy'n cynnwys y meddyg teulu). Dylai gofal sylfaenol fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio neu weithredu unrhyw bontio a throsglwyddo gofal os bernir ei fod yn briodol, yn enwedig os yw'r cynllun yn cynnwys rhyddhau o ofal eilaidd yn ôl i wasanaethau gofal sylfaenol neu wasanaethau gofal yn y gymuned.

Efallai mai'r clinigwr Gofal Sylfaenol yw'r Gweithiwr a Enwir yn barod ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc sydd â chyflyrau cronig fel asthma neu epilepsi. Dylai'r meddyg teulu fod yn ymwybodol o bwy sydd wedi'i nodi fel y Gweithiwr a Enwir. Efallai y bydd angen i'r THP gynnwys argymhellion priodol ar gyfer gwaith dilynol yn y dyfodol, ymchwiliadau, cyngor ar ragdybiaethau neu gyfeirio at wasanaethau eraill, gan gynnwys grwpiau cymorth i gleifion.

Gall clystyrau gofal sylfaenol sydd wedi'u diffinio'n glir yn y dyfodol fod â rôl o ran cydgysylltu Gweithwyr a Enwir ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc sy'n cynllunio ar gyfer pontio a throsglwyddo.

5. Adolygu'r Cynllun Pontio a Throsglwyddo i baratoi ar gyfer pen-blwydd y person ifanc yn 16 oed - "adolygu'r THP ar gyfer pen-blwydd y person yn 16"

Ar gyfer pontio a throsglwyddo o'r gwasanaeth Pediatrig, dylai cynlluniau ar gyfer adolygiad ar y cyd o'r cynllun gofal gael eu cynnal i baratoi ar gyfer pen-blwydd y plentyn neu'r person ifanc yn 16 oed. Gall cynllunio pontio a throsglwyddo ddechrau yn gynharach neu'n ddiweddarach gan y gallai fod gan rai cyflyrau meddygol drefniadau penodol ar waith yn barod. Disgwylir y bydd gwasanaethau oedolion wedi dechrau trafod â'r plentyn neu'r person ifanc cyn ei ben-blwydd yn 16 oed.

Mae gan y Gweithiwr a Enwir gyfrifoldeb i drefnu'r cyfarfod adolygu'r THP hwn. Dylai'r aelodau gynnwys y plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a'i ofalwr os dymunir, eiriolwr, pob gweithiwr proffesiynol perthnasol o Ofal Sylfaenol, gwasanaethau meddygol, nyrsio a therapi plant ac oedolion ac unrhyw unigolion arwyddocaol eraill sy'n ymwneud â darparu'r gofal.

Mae angen i'r Gweithiwr a Enwir roi sylw priodol i hawliau'r rhai sy'n gadael gofal mewn perthynas â chymorth gwasanaethau iechyd fel rhan o drefniadau cynllunio ac adolygu'r llwybr y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015²³.

Dylai agenda'r cyfarfod "adolygu'r THP ar gyfer pen-blwydd y person yn 16" gynnwys anghenion a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas â gofal iechyd, unrhyw faterion cyfreithiol, cymhwysedd meddyliol a ffiniau gwasanaeth a allai effeithio ar ansawdd gofal iechyd neu fynediad ato, ac unrhyw effaith arall ar ganlyniadau iechyd y plentyn neu'r person ifanc.

Nod y cyfarfod "adolygu'r THP" yw sicrhau bod y cynllun yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn glinigol briodol, yn realistig ac yn bodloni dymuniadau a budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc.

Mae angen dogfennu o fewn y THP yr atebolwydd clinigol parhaus am ofal gan wasanaethau priodol, amseru a natur pontio a throsglwyddo a chydgyssylltu clinigol (e.e. arweinydd clinigol, yr angen am glinigau ar y cyd, atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau ychwanegol, amseru a phontio/trosglwyddo etc.).

Dylai pob adolygiad sy'n ymwneud â phontio a throsglwyddo fod yn dryloyw, cynnwys y plentyn neu'r person ifanc a'i deulu a chadw at egwyddorion hawliau a lles plant a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn²⁴. Mae adolygiadau'n gyfle i ddiweddarau'r THP amlasiantaethol a dylid rhannu hyn gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu fel y bo'n briodol.

Unwaith y bydd y plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a'i ofalwyr, pob clinigwr a phartïon perthnasol eraill wedi cytuno i'r THP, dylai'r plentyn neu'r person ifanc gadw'r cynllun a dylid cadw copi ohono ar gofnod gofal iechyd y plentyn neu'r person ifanc.

²³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1820/contents/made/welsh>

²⁴ <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/>

6. Y plentyn a'r person ifanc yn ymuno â'r system gofal iechyd am y tro cyntaf yn 16 neu 17 oed

Gall y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei atgyfeirio i unrhyw wasanaeth neu therapi eilaidd arbenigol (megis gastroenteroleg, cardioleg, poen cronig, orthopedeg) am y tro cyntaf yn 16 neu 17 oed gael gofal gan arbenigwyr pediatrig neu oedolion, neu gyfuniad o'r ddau, yn dibynnu ar drefniadau lleol.

Dylai fod llwybr clir ar gyfer pobl ifanc 16 neu 17 oed ar gyfer gofal eilaidd a derbyniadau brys fel nad oes unrhyw blentyn neu berson ifanc o'r oedran hwn yn profi oedi neu ddryswch ynghylch ei ofal. Mae hyn yn cynnwys ystyried lleoliad priodol (*gweler Atodiad 5*).

Ni ddylid gwrthod mynediad i'r plentyn neu'r person ifanc at wasanaeth priodol, amserol oherwydd ei oedran ac ni ddylai fod o dan anfantais yn sgil symud o restr aros plant i'r rhestr aros oedolion.

Bydd y gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn cadw cyfrifoldeb clinigol yn unol â chanllawiau atebolrwydd lleol hyd nes y cytunir yn ffurfiol ar y trefniadau ar gyfer pontio a throsglwyddo gofal, gan sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwbl ymwybodol o ba glinigwr sy'n gyfrifol am ei ofal.

Dylai timau plant ac oedolion gydweithio i sicrhau parhad a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Os bydd unrhyw glinigwr yn teimlo ei fod yn ymarfer y tu allan i'w gymhwysedd oherwydd oedran y claf, rhaid iddo uwchgyfeirio'r mater drwy ei gynllun atebolrwydd clinigol.

7. Ansawdd ac amgylchedd y gwasanaeth

Dylid darparu gofal i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau sy'n briodol i'w hoedran a'u hanghenion. Dylid ystyried penderfyniad ynghylch y lleoliad gofal mwyaf priodol ar sail unigol, gan adlewyrchu dymuniadau'r person ac mewn ymgynghoriad â'r meddyg ymgynghorol sydd â chyfrifoldeb clinigol. Rhaid cadw at drefniadau diogelu yn briodol ar unrhyw oedran. (*gweler y siart llif yn Atodiad 5*).

Dylai unrhyw benderfyniad ystyried maint corfforol, aeddfedrwydd, cyfnod datblygiadol, cyflwr meddygol a threfniadau gofal parhaus y plentyn neu'r person ifanc, yn ogystal â'i ddewis o ran a ydyw'n cael ei dderbyn i ward plant neu ward oedolion. Dylid cynnig dewis lle bo hynny'n bosibl.

Dylai lleoliadau fod yn seico-gymdeithasol briodol i amgylchiadau ac anghenion datblygiadol yr unigolyn. Dylai sgiliau, offer a chyfleusterau fod ar gael i blant ac oedolion sy'n briodol i'w hanghenion a'u dymuniadau clinigol unigol, eu maint corfforol a'u haeddfedrwydd.

Dylai llety cleifion mewnol fod yn briodol i oedran ar gyfer gofal meddygol a llawfeddygol, ymchwiliadau, therapïau, anaesthetig, gofal dwys, gofal mamolaeth neu ofal iechyd arbenigol arall.

Efallai y bydd angen sgiliau ychwanegol ar glinigwyr i ofalu am blentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed mewn arbenigeddau pediatrig neu oedolion. Rhaid i glinigwyr weithio o fewn ffiniau eu harbenigedd, ond rhaid iddynt sefydlu mecanweithiau i ymgynghori â chydweithwyr yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, rhaid i Gyfarwyddwyr Clinigol nodi diffygion sgiliau mewn ymgynghoriad â chlinigwyr a datblygu strategaethau addysgol i gau unrhyw fylchau. Bydd Cyfarwyddwyr Meddygol yn goruchwyllo'r gwasanaeth cyffredinol.

Rhaid i bob clinigwr fod â sgiliau a chymwyseddau diogelu sy'n briodol i natur ei gyflogaeth. Mae gwiriadau cyflogaeth (DBS) sy'n ymwneud â gofynion ar gyfer rheoli plant ac oedolion sy'n wynebu risg (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) yn un o ofynion cyflogaeth cyffredinol GIG Cymru.

Dylai trefniadau llywodraethu cadarn fod ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi'n ddiogel, gan gynnwys rhoi meddyginiaethau oddi ar drwydded ac oddi ar label.

8. Cwblhau Pontio a Throsglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

Wrth ryddhau'n ffurfiol o unrhyw wasanaeth plant, dylai crynodeb clinigol ysgrifenedig o anghenion iechyd, diagnosis/llunio, cynlluniau rheoli ac ymyriadau a argymhellir (meddyginiaeth, therapi, ymchwiliadau etc) gael ei ddarparu gan bob clinigwr pediatrig fel rhan o'r broses pontio a throsglwyddo, fel y gall y clinigwr/clinigwyr sy'n atebol am wasanaethau i oedolion gynllunio cynnig gofal iechyd priodol. Dylid rhoi copi o'r ddogfen hon i'r plentyn neu'r person ifanc a'i feddyg teulu.

Bydd y Gweithiwr a Enwir yn cynnig cymorth i'r plentyn neu'r person ifanc yn ôl yr angen yn ystod y cyfnod pontio a throsglwyddo gofal. Gallai hyn gynnwys yr angen i'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu ymweld â chanolfan newydd i gyfarfod â'r tîm newydd, cymorth yn ystod yr apwyntiad cyntaf gyda'r clinigwr sy'n atebol am wasanaethau i oedolion, gwybodaeth am gyfleusterau cleifion mewnol neu allanol fel sy'n briodol i'r cyflwr ac anghenion unigol. Bydd y Gweithiwr a Enwir hefyd yn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu a'i ofalwyr am o leiaf 6 mis ar ôl trosglwyddo gofal. Bydd yr union amser yn seiliedig ar angen clinigol unigol a dylai unrhyw benderfyniad ynghylch amserlenni gael ei drafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

Dylai'r plentyn neu'r person ifanc aros dan ofal gwasanaethau plant hyd nes y cwblheir y broses pontio a throsglwyddo ffurfiol, sy'n digwydd pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i ymgynghoriad/apwyntiad gyda gwasanaethau oedolion

9. Mesurau a argymhellir i fonitro ac adrodd ar ansawdd gwasanaethau a phrofiad y defnyddiwr:

Mae gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fecanwaith i gofnodi argraff y plentyn a'r person ifanc/teulu/gofalwr o'r broses pontio a throsglwyddo ar ôl 6 mis a 12 mis i helpu i lywio darpariaeth y gwasanaethau yn y dyfodol. (Casglu profiad defnyddwyr gwasanaethau/straeon, cwynion neu bryderon cleifion fel y nodir yn y Fframwaith ar gyfer Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau).

Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fonitro gweithrediad y canllawiau pontio a throsglwyddo gan ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, safonau gwasanaeth, canlyniadau archwiliadau cenedlaethol cydnabyddedig, a chynnal adolygiad o strwythurau, prosesau a chanlyniadau ar ôl 2 flynedd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas i'r diben a bod canlyniadau allweddol defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cyflawni.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r trefniadau hyn (*gweler Atodiad 6*), ar ôl dwy flynedd o weithredu i sicrhau ansawdd a chysondeb ledled Cymru.

Dylai fod gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fecanwaith atebolrwydd a chyflenwi clir ar waith i sicrhau bod y canllawiau pontio a throsglwyddo'n cael eu gweithredu ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd, sy'n adrodd i'r bwrdd. Dylai'r mecanweithiau hyn ystyried yr egwyddorion canlynol:

- hyrwyddo gofynion y canllawiau hyn a rhannu ymarfer arloesol a llwyddiannus yn ehangach;
- cynnwys ystyriaethau ansawdd a diogelwch, yn enwedig adborth gan y plentyn neu'r person ifanc a'i deulu;
- hyrwyddo gweithrediad effeithiol y canllawiau ar draws y sefydliad;
- sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol o fewn ei ardal neu ei wasanaeth, a cheisio gwelliant parhaus;
- adrodd i'w Bwrdd ar weithredu'r canllawiau hyn;
- gweithredu fel ffynhonnell cyngor i staff clinigol a staff eraill ar weithredu;

10. Datrys anghydfod

Rhaid i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth fod â system gwneud sylwadau a chwyno ymatebol drwy broses Gweithio i Wella GIG Cymru i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn amser real, gan gynnwys pryderon ynghylch amseroedd aros hir neu oedi clinigol.

Rhaid i blant, pobl ifanc a gofalwyr fod â mynediad at wybodaeth a chymorth, gan gynnwys cymorth eiriolaeth, a defnyddio proses Gweithio i Wella GIG Cymru i godi pryderon/gwneud cwynion os oes angen. Darperir cymorth a chynghor i blant neu bobl ifanc wneud sylwadau yng Nghymru drwy linell gymorth Meic²⁵

²⁵ <https://www.meiccymru.org/cym/>

Atodiad 1

Fframwaith Strategol a Deddfwriaethol

Cefnogir y canllawiau hyn gan fframwaith strategol a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn²⁶ (CCUHP) yw'r sail ar gyfer holl waith Llywodraeth Cymru gyda phlant a phobl ifanc, gyda'r Saith Nod Craidd ar gyfer datblygu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i hawliau plant a nodir yn CCUHP. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw priodol i hawliau plant wrth arfer unrhyw swyddogaethau.

Mae'r safonau cyfranogiad yn nodi saith pwnc allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Dyma nhw:-

- **Gwybodaeth** – rhaid iddi fod yn rhwydd i blant a phobl ifanc ei deall a gwneud penderfyniad gwybodus
- **Dewis** – Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddewis bod yn rhan o bethau sy'n bwysig iddynt a gweithio arnynt
- **Dim Gwahaniaethu** - mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae gennych chi'r hawl i gael eich trin yn deg
- **Parch** – Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn. Mae eu barn yn bwysig a rhaid ei pharchu.
 - Bydd Plant a Phobl Ifanc Ar Eu Hennill - mae ganddynt yr hawl i ddysgu a bod y gorau y gallant fod
- **Adborth** – Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i wybod pa wahaniaeth y mae eu cyfranogiad wedi'i wneud
- **Gweithio'n Well** - dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt.

Mae'r safonau wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar CCUHP a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n rhoi cyfranogiad plant wrth wraidd gwella eu lles. Mae'r safonau wedi'u haddasu i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc anabl o dan yr enw *Cael Llais. Cael Dewis*.

Bwriedir i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl fod yn offeryn hawliau dynol gyda dimensiwn datblygu cymdeithasol amlwg. Mae'n mabwysiadu dull categoraidd eang o bobl ag anableddau ac yn aildatgan bod rhaid i bawb sydd â phob math o anableddau feddu ar bob hawl dynol a rhyddid sylfaenol. Mae'n egluro ac yn cymhwyso sut

²⁶ <https://www.complantcymru.org.uk/confensiwn-y-cenhedloedd-unedig-ar-hawliau-plentyn-testun-llawn/>

mae pob categori o hawliau yn berthnasol i bobl ag anableddau ac yn nodi meysydd lle mae'n rhaid gwneud addasiadau i bobl ag anableddau arfer eu hawliau yn effeithiol ac ar gyfer meysydd lle mae eu hawliau wedi'u torri, a lle mae'n rhaid atgyfnerthu'r broses o ddiogelu hawliau²⁷.

Symud Cymru Ymlaen²⁸ (2016-2021) yw cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru i ysgogi gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan ddarparu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egniol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig a chysylltiedig.

Cynlluniau cyflenwi gofal iechyd yw'r fframwaith strategol ar gyfer gwella gwasanaethau ar draws 9 o gyflyrau difrifol neu feysydd gwasanaeth clinigol (diabetes, canser, diwedd oes, clefyd y galon, strôc, gofal critigol, anadlol, clefyd yr afu, niwroleg). Mae pob cynllun yn cynnwys agwedd ar ofal sy'n ymwneud â phlant.

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol²⁹ i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn helpu'r rhai sydd o dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn golygu bod rhaid i rai cyrff cyhoeddus bellach feddwl am sut y gall eu penderfyniadau strategol, megis pennu amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl³⁰ (2012) yw strategaeth pob oed Llywodraeth Cymru dros 10 mlynedd, i wella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd meddwl. Mae'n amlygu profiadau defnyddwyr gwasanaethau gan nodi bod gofal a thriniaeth yn gallu methu wrth bontio rhwng gwasanaethau. Mae'n nodi y dylai trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau fod yn seiliedig ar angen ac nid ar ffiniau oedran artiffisial, ac mae'n canolbwyntio ar sut i wella bywydau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd gan ddefnyddio dull adfer a galluogi.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer cysylltiedig Cymru³¹ (2016) yn nodi'r dyletswyddau ac yn rhoi arweiniad i ymarferwyr meddygol, clinigwyr, rheolwyr a staff ysbytai, ysbytai annibynnol a chartrefi gofal, eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar sut y dylent fynd ati i arfer eu swyddogaethau a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf.

²⁷ <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html>

²⁸ <https://www.yumpu.com/en/document/read/55957145/symud-cymru-ymlaen>

²⁹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/295/contents/made/welsh>

³⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-strategaeth-ar-gyfer-iechyd-meddwl-a-lles-yng-nghymru.pdf>

³¹ <https://llyw.cymru/deddf-iechyd-meddwl-1983-cod-ymarfer>

Mae'n rhoi canllawiau hefyd i feddygon a gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch rhai agweddau ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl yn fwy cyffredinol.³²

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)³³ (2010) yn gosod dyletswyddau cyfreithiol ar fyrdau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ynghylch asesu a thrin problemau iechyd meddwl. Yn benodol, mae'n sicrhau bod gofal ar waith ledled Cymru sy'n canolbwyntio ar anghenion iechyd meddwl pobl drwy sicrhau bod gan bob claf mewn gwasanaethau eilaidd Gynllun Gofal a Thriniaeth. Mae'n darparu llwybr at asesiad/triniaeth mewn gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd, ac yn darparu cymorth eiriolaeth.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (MCA)³⁴ wedi'i dylunio i ddiogelu a grymuso unigolion nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal a'u triniaeth. Mae'n gyfraith sy'n berthnasol i unigolion 16 oed a hŷn. Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn rhoi canllawiau manwl ar sut i gynnal asesiadau o'r hyn sydd er budd pennaf unigolyn. Mae taflen ffeithiau'r GIG ar gael hefyd.

Mae canllaw NICE³⁵ yn ymdrin â'r broses o wneud penderfyniadau mewn pobl 16 oed a hŷn a allai fod heb alluedd nawr neu yn y dyfodol. Ei nod yw helpu ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle mae ganddynt y galluedd i wneud hynny. Mae hefyd yn helpu ymarferwyr i gadw pobl nad oes ganddynt alluedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.³⁶

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)³⁷ (2014) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Integreiddio sydd wrth wraidd y Ddeddf, ac mae iddi oblygiadau i GIG Cymru a'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau.

³² Yn dilyn adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi [Papur Gwyn Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl](#). Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn a'r camau gweithredu ac unrhyw ddeddfwriaeth newydd y gallai fod ei hangen yng Nghymru.

³³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/7/contents>

³⁴ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents>

³⁵ <https://www.nice.org.uk/guidance/NG108>

³⁶ Bydd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn diwygio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac yn cyflwyno'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) newydd yn lle'r Cynllun Amddifadu o Ryddid (DoLS) presennol, a bydd yn berthnasol i bob lleoliad a hefyd i bobl ifanc 16 ac 17 oed. O dan yr LPS, pan fo'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth ar gyfer unigolyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, rhaid i'r amddifadu o ryddid hwn fod wedi'i awdurdodi.

³⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents>

Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw:

- Llais a rheolaeth – rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal, a rhoi llais iddo, a rheolaeth dros y canlyniadau sy'n ei helpu i gyrraedd llesiant.
- Atal ac ymyrryd yn gynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn atal yr angen critigol rhag cynyddu.
- Llesiant – cefnogi pobl i gyrraedd eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- Cydgynhyrchu – annog unigolion i gymryd mwy o ran yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau.

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)³⁸ (2015) i rym ym mis Ebrill 2016, a'i nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018³⁹ (Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg) yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n disodli'r deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r broses o asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg hefyd yn sicrhau parhad bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n caniatáu i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan yr ALI ynghylch ADY eu hunain neu ADY eu plentyn, ond mae'n ei ailenwi'n Tribiwnlys Addysg Cymru.

Mae Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg yn creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau sydd ag ADY, a phobl ifanc ag ADY sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach (AB);
- proses gydweithredol ac integredig o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

³⁸ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents>

³⁹ <https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011⁴⁰, dylid cynnwys gwasanaethau Cymraeg mewn prosesau cynllunio a chyflawni a dylid cynnig gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt.

Yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016⁴¹, mae gan Fyrddau Iechyd ddyletswydd gyfreithiol i ystyried pwysigrwydd sicrhau lefelau priodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad, gan gynnwys pob lleoliad a ddarperir ac a gaffaelwyd gan y bwrdd iechyd.

Mae'r canllawiau Gofal Parhaus i Blant⁴² yn cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i gynllunio a chefnogi anghenion gofal parhaus plant a phobl ifanc. Mae'n cefnogi dealltwriaeth o'r ystod o anghenion iechyd posibl - anableddau corfforol a dysgu, anghenion iechyd meddwl, anhwylder ac ymddygiadau niwroddatblygiadol yr ystyrir eu bod yn heriol - a sut y gall diwallu'r anghenion hynny gyda phecyn gofal parhaus gyd-fynd â mathau eraill o gymorth.

Mae angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau hefyd ystyried sut mae eu systemau TG yn cefnogi rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

⁴⁰ <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents>

⁴¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5>

⁴² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/canllawiau-ar-gyfer-gofal-parhaus-i-blant-a-phobl-ifanc.pdf>

Atodiad 2

Seilwaith Ategol

Uwch-arweinydd Pontio a Throsglwyddo

Mae rôl yr Uwch-arweinydd Pontio a Throsglwyddo (rôl glinigol) yn debygol o gwmpasu'r canlynol:

- Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith yn y byrddau iechyd neu'r ymddiriedolaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion er mwyn sicrhau proses pontio a throsglwyddo gofal effeithiol, ac ymdrin â bylchau yn narpariaeth y gwasanaethau ar draws gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.
- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i sicrhau bod y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth yn cyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â'r Canllawiau Pontio a Throsglwyddo.
- Cydweithio'n agos â'r SACDA ond hefyd yr arweinydd proffesiynol o wasanaethau plant a gwasanaethau oedolion fel ei gilydd o feysydd megis Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Pediatreg Cymunedol, Gwasanaethau Oedolion, Anableddau Dysgu, CAMHS, Gofal Sylfaenol, Nyrsio Ysgolion, Nyrsio Ardal a Nyrsio Arbenigol.
- Gwellu'r broses o gydgyssylltu gofal a rhoi ffocws i'r bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Canllawiau.
- Hyrwyddo sicrwydd, gwellu'r gwaith o gydgyssylltu ac integreiddio gwasanaethau iechyd a ddarperir i bob unigolyn yn y broses pontio a throsglwyddo.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i reoli risg.
- Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Iechyd neu Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Llunio adroddiad blynyddol i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd
- Hyrwyddo meincnodi proses a chanlyniadau ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau er mwyn lleihau'r amrywiad mewn ymarfer a hyrwyddo arferion da.
- Monitro cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth a darparu adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Cynrychioli'r bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth ar bwyllgorau a gweithgorau lleol a chenedlaethol perthnasol mewn perthynas â Phontio a Throsglwyddo.

Atodiad 3

Siart Llif Pontio a Throsglwyddo

Mae'r siart llif hwn yn gyffredinol yn ôl ei natur, ond bydd amgylchiadau lle y gallai fod angen pontio plentyn a pherson ifanc ar wahanol oeddrannau. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd angen ystyried gweithgareddau eraill hefyd i gefnogi'r plentyn a'r person ifanc orau.

Rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fod â mecanwaith atebolrwydd a chyflenwi clir ar waith, sy'n cynnwys nodi a dynodi **Uwch-arweinydd** a fydd yn atebol am sicrhau bod y canllawiau pontio a throsglwyddo yn cael eu gweithredu, a sicrhau ansawdd y canllawiau hynny, ar draws yr holl wasanaethau sylfaenol, eilaidd, trydyddol ac yn y gymuned.



Dylid cynnal cyfarfodydd blynyddol gyda gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion i adolygu'r plant a'r bobl ifanc sy'n nesáu at bontio a throsglwyddo.



Pan fydd y plentyn a'r person ifanc rhwng **13 a 14 oed**, dylai'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth nodi ei anghenion a'i ddymuniadau gofal iechyd er mwyn cael cymorth i gynllunio'r cyfnod pontio a throsglwyddo gofal o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

Dylai **Gweithiwr Pontio a Throsglwyddo a Enwir** gael ei nodi a'i benodi o Gorff y GIG i gefnogi'r broses o bontio a throsglwyddo gofal iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Bydd y Gweithiwr a Enwir yn:

- Gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a'i wasanaethau i gydgyssylltu cynlluniau a gwasanaethau yn ystod y cyfnod pontio a throsglwyddo atebolrwydd clinigol am ofal.
- Hyrwyddo ac eirioli dymuniadau a safbwyntiau'r plentyn a'r person ifanc er mwyn sicrhau mynediad priodol iddyn nhw a'u teulu at yr holl wasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd angenrheidiol a'r holl wasanaethau gofal iechyd eraill sydd eu hangen.
- Cysylltu â gwasanaethau eraill y tu allan i lechyd yn ôl yr angen (gan gynnwys gofal cymdeithasol, addysg, gwasanaethau ieuenctid).
- Sicrhau bod **'Cynllun Pontio a Throsglwyddo' (THP)** yn cael ei gydgyhyrchu gan ddefnyddio adnoddau fel 'Un dau tri, i ffwrdd â ni'. Bydd y THP yn cael ei gadw gan y plentyn a'r person ifanc ac yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig iddynt, y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen, yr amserlen a'r canlyniadau iechyd a lles disgwylidig.
- Dylai'r THP gael ei gysylltu neu ei integreiddio â chynlluniau gofal eraill a'i adolygu a'i ddiweddarau ar adegau.

Atodiad 3

Adolygiad ar y Cyd rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion cyn pen-blwydd y person ifanc yn 16 oed er mwyn caniatáu i gynlluniau ddod i rym rhwng 16 a 18 oed (“adolygiad THP ar gyfer pen-blwydd y person yn 16”)



Mae'r Gweithiwr a Enwir yn cynnal y “adolygiad THP ar gyfer pen-blwydd person yn 16” er mwyn:

- Sicrhau bod y THP yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn glinigol briodol, yn realistig ac yn bodloni dymuniadau a budd gorau'r plentyn a'r person ifanc.

Dylai'r agenda ar gyfer y cyfarfod “adolygu THP ar gyfer pen-blwydd person yn 16” gynnwys anghenion a dymuniadau'r plentyn a'r person ifanc am ofal iechyd, unrhyw faterion cyfreithiol, cymhwysedd meddyliol a ffiniau gwasanaeth a allai effeithio ar ansawdd neu fynediad at ofal iechyd, ac unrhyw effaith arall ar ganlyniadau iechyd i'r plentyn a'r person ifanc.

Mae angen dogfennu o fewn y THP yr atebolrwydd clinigol parhaus am ofal gan wasanaethau priodol, amseru a natur pontio a throsglwyddo a chydgyssylltu clinigol.

Dylai pob adolygiad sy'n ymwneud â phontio a throsglwyddo fod yn dryloyw, cynnwys y plentyn a'r person ifanc a'i deulu a chadw at egwyddorion hawliau a lles plant.

Unwaith y bydd y plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a'i ofalwyr, pob clinigwr a phartïon perthnasol eraill wedi cytuno i'r THP, dylai'r plentyn neu'r person ifanc gadw'r cynllun a dylid cadw copi ohono ar gofnod gofal iechyd y plentyn neu'r person ifanc.



Wrth ryddhau'n ffurfiol o unrhyw wasanaeth plant, dylai crynodeb clinigol ysgrifenedig o anghenion iechyd, diagnosis/llunio, cynlluniau rheoli ac argymhellion gael ei ddarparu gan bob clinigwr pediatrig fel rhan o'r broses pontio a throsglwyddo, fel y gall y clinigwr/clinigwyr sy'n atebol am wasanaethau oedolion gynllunio cynnig gofal iechyd priodol. Dylid rhoi copi o'r ddogfen hon i'r plentyn a'r person ifanc a'i feddyg teulu.

Bydd y Gweithiwr a Enwir yn cynnig cymorth yn ôl yr angen i'r plentyn a'r person ifanc drwy'r cyfnod pontio a throsglwyddo gofal.

Bydd y Gweithiwr a Enwir hefyd yn cefnogi'r plentyn a'r person ifanc a'i deulu a'i ofalwyr am o leiaf 6 mis ar ôl trosglwyddo gofal. Bydd yr union amser yn seiliedig ar angen clinigol unigol a dylai unrhyw benderfyniad ynghylch amserlenni gael ei drafod gyda'r plentyn a'r person ifanc.

Dylai'r plentyn neu'r person ifanc aros dan ofal gwasanaethau plant hyd nes y cwblheir y broses pontio a throsglwyddo ffurfiol, sy'n digwydd pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i ymgynghoriad/apwyntiad gyda gwasanaethau oedolion.

Atodiad 3

Cwblhau'r broses o drosglwyddo atebolrwydd clinigol



- Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau i roi mecanwaith ar waith i gofnodi argraff y plentyn a'r person ifanc/teulu/gofalwr o'r broses ar ôl 6 mis a 12 mis i helpu i lywio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.
- System gwneud sylwadau a chwyno ymatebol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn amser real, a'u monitro, gan gynnwys amseroedd aros hir neu oedi clinigol.
- Ar ôl dwy flynedd o weithredu, rhaid i Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau ddarparu adroddiadau cydymffurfio blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau i fonitro gweithrediad y canllawiau pontio a throsglwyddo a chynnal adolygiad o strwythurau, prosesau a chanlyniadau ar ôl 2 flynedd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas i'r diben a bod canlyniadau allweddol defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cyflawni.

Atodiad 4

Cynllun Pontio a Throsglwyddo Plant a Phobl Ifanc

Dylech barchu bod y ddogfen hon yn breifat ac yn gyfrinachol

Popeth Amdanaf Fi

Enw a Ffefrir:	
Enw Cyfreithiol:	
Dyddiad Geni:	
Rhywedd:	
Ethnigrwydd:	
Cyfeiriad:	
Cyfeiriad Amgen: (h.y. cyfeiriad prifysgol a dyddiadau tymhorau)	
Rhifau Cyswllt:	
Cyswllt mewn Argyfwng:	
Cyfeiriad E-bost:	
Rhif y GIG:	
Manylion cyswllt:	
Manylion cyswllt y Gweithiwr a Enwir:	
Dyddiad Pontio a Throsglwyddo wedi'i gynllunio:	
Dyddiad Dechrau Pontio a Throsglwyddo:	

Atodiad 4

Cynllun Pontio a Throsglwyddo Plant a Phobl Ifanc

Dylech barchu bod y ddogfen hon yn breifat ac yn gyfrinachol

Popeth Amdanaf Fi

Pobl sy'n bwysig i mi?

Dyma sut rwy'n cyfathrebu (Os oes angen, dylech gynnwys siart cyfathrebu)

Beth mae pobl yn ei hoffi ac yn ei edmygu amdana i?

Fy niwylliant

Beth sy'n bwysig i mi?

Atodiad 4

Cynllun Pontio a Throsglwyddo Plant a Phobl Ifanc

Dylech barchu bod y ddogfen hon yn breifat ac yn gyfrinachol

Popeth Amdanaf Fi

Fy anghenion a'm dymuniadau iechyd allweddol ar gyfer fy Nghynllun Pontio a Throsglwyddo: (Cynnwys diagnosis, llunio, trin, therapïau clinigwyr a gofalwyr cyfredol)

Hoffterau: (Beth sy'n gweithio'n dda)

Anhoffterau: (Cynnwys sbardunau)

Cryfderau:

Heriau:

Atodiad 4

Fi Creadigol, Mynegiannol

(Pethau sy'n dda ac rwy'n eu mwynhau yn fy mywyd)

Yr hyn yr hoffwn i chi ei wybod amdanaf

Fi Corfforol

(Bod yn iach ac yn egnïol, diwallu fy anghenion sylfaenol o ran tai, arian, fy nghyfrifoldebau ac ati)

Pethau rwy'n eu gwneud yn Dda (Cryfderau)

Nodau (Beth sydd angen i mi ei wneud)

Pwy all fy helpu

Sut

Erbyn Pryd

Fi Emosiynol

(Fy mherthynas sut rwy'n meddwl am bethau/pobl)

Pethau rwy'n eu gwneud yn Dda (Cryfderau)

Nodau (Beth sydd angen i mi ei wneud)

Pwy all fy helpu

Sut

Erbyn Pryd

Atodiad 4

Fi Creadigol, Mynegiannol

(Pethau sy'n dda ac rwy'n eu mwynhau yn fy mywyd)

Yr hyn yr hoffwn i chi ei wybod amdanaf

Fi Cymdeithasol

(Pethau rwy'n eu gwneud,
llefydd rwy'n mynd iddynt)

Pethau rwy'n eu gwneud yn Dda (Cryfderau)

Nodau (Beth sydd angen i mi ei wneud)

Pwy all fy helpu

Sut

Erbyn Pryd

Fi Cynhyrchiol

(Gwaith, Hyfforddiant Addysg
ac ati)

Pethau rwy'n eu gwneud yn Dda (Cryfderau)

Nodau (Beth sydd angen i mi ei wneud)

Pwy all fy helpu

Sut

Erbyn Pryd

Atodiad 4

Gêm cardiau Emoji

Mae'r gêm hon yn eich galluogi i ddewis y cardiau sy'n cynrychioli orau sut rydych chi'n teimlo.

Dylai'r cerdyn hwn ysgogi trafodaeth ar y pwnc i gael rhagor o wybodaeth.

Trist



Pryder



Gobeithol



Paranoiaidd



Atodiad 4

Pobl Yn Fy Mywyd

(Rhestrwch bobl gadarnhaol a chefnogol ac unrhyw rai eraill nad ydynt yn gefnogol ond sydd yn arwyddocaol neu sydd wedi bod yn arwyddocaol yn eich bywyd)


Pwy ydyn nhw	Perthynas	Yr hyn rwy'n ei wneud iddyn nhw	Beth maen nhw'n ei wneud i mi

Atodiad 4

Map Eco

Os ydych chi yn y canol, gan ddefnyddio'r map eco nodwch ble mae pobl yn ffitio o'ch cwmpas, gan nodi gan bwy rydych chi'n cael y gefnogaeth fwyaf a pha mor bwysig yw pobl i chi o ran eich adferiad/lles.

Gellir defnyddio'r ymarfer hwn hefyd i archwilio newidiadau mewn perthnasoedd a gellir ei ddefnyddio i fesur ac adolygu cynnydd os caiff ei adolygu yn y sesiwn ddiweddarach.



Atodiad 4

Cynllun Pontio a Throsglwyddo

Sut rydw i eisiau i fy nyfodol edrych

Pethau i aros yr un fath

Pethau i'w newid

Pwy all helpu

Sut alla i helpu fy hun

Erbyn Pryd

Atodiad 4

Siart cyfathrebu

Pan mae... yn gwneud hyn	Rydyn ni'n meddwl ei fod yn golygu...	A dylem...

Siart cyfathrebu (Wedi'i gwblhau)

Pan fydd Freddie yn gwneud...	Rydym yn credu ei fod yn golygu...	A dylem...
Tapio'i geg â'i law	Mae eisiau rhywbeth i'w fwyta	Cynnig rhywfaint o fanana neu afal iddo a'i annog i ddewis

Atodiad 4

Canllawiau apwyntiad

Mae'r plentyn a'r bobl ifanc yn trafod eu hanawsterau yn ystod apwyntiadau ac ymgynghoriadau gan gynnwys ofn, rheoli disgwyliadau ac eisiau gwybod mwy am yr hyn mae gweithwyr proffesiynol yn ei wneud.

Gall gweithwyr proffesiynol ddefnyddio'r tudalennau hyn i gyflwyno eu hunain i'r plentyn a'r person ifanc ac maen nhw'n nodi'n benodol pa wasanaeth/ymyrraeth maen nhw'n ei chynnig. Gellir eu cwblhau cyn apwyntiadau neu gyda'r plentyn a'r person fel offeryn i drafod yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Ar waelod pob manylyn cyswllt mae taflen cadarnhau caniatâd y gellir ei gwirio os yw'r plentyn a'r person ifanc am i'w wybodaeth gael ei rhannu ag unrhyw unigolyn neu dîm arall i gael rhagor o gymorth neu ymyrraeth, mae hyn yn eu hatal rhag gorfod ailadrodd eu stori.

GWEITHWYR PROFFESIYNOL – ATEBWCH Y CANLYNOL:

Pwy ydych chi	Sut fyddwch chi'n helpu	Eich manylion cyswllt	Pa mor aml y byddaf yn eich gweld chi
Beth fyddaf yn ei gyflawni o'r apwyntiad hwn	A oes unrhyw beth wedi gwella / neu'n waeth	Ydw i'n hapus gyda'r driniaeth, Oes angen cymorth ychwanegol arnaf?	Beth sydd angen digwydd nesaf?

Atodiad 4

Crynodeb o'r Apwyntiad

Dyddiad	Math o gyfarfod	Gyda	Lle	Gwybodaeth / Cam Gweithredu / Canlyniad	Apwyntiad Nesaf Dyddiad

Atodiad 4

Adolygiad Cynnydd

Nod	Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma	Help rydych chi wedi'i dderbyn	Sut rydych chi'n teimlo ar ôl y drafodaeth
			Cyn: Ar ôl:
			Cyn: Ar ôl:
			Cyn: Ar ôl:
			Cyn: Ar ôl:

Dyddiad cwblhau'r adolygiad _____

Atodiad 4

Caniatâd i rannu gwybodaeth

Noder: Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych yn hapus i rannu eich gwybodaeth neu ddarnau o'ch gwybodaeth. Os nad ydych yn cydsynio, ni ellir rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch ag unrhyw wasanaethau eraill, oni bai bod perygl difrifol o niwed.

Enw: _____

Dyddiad Geni: _____

Rwy'n ymwybodol y caiff y wybodaeth hon ei storio, ei rhannu a'i defnyddio at ddibenion darparu gwasanaethau i mi. Rwy'n cytuno i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r rhai sydd wedi'u rhestru isod neu ei chasglu ganddynt:

1. _____ Y cyfan/darn penodol: _____

2. _____ Y cyfan/darn penodol: _____

3. _____ Y cyfan/darn penodol: _____

Enw: _____

Dyddiad: _____

Llofnod: _____

Atodiad 5

Siart Llif i'w ddilyn os derbynnir plentyn neu berson ifanc 16-17 oed (hyd at 18 oed).

Dylai fod llwybr clir ar gyfer pobl ifanc 16 neu 17 oed ar gyfer gofal eilaidd a derbyniadau brys fel nad oes unrhyw blentyn neu berson ifanc o'r oedran hwn yn profi oedi neu ddryswch ynghylch ei ofal.

YSTYRIAETH 1:

Mae gan y plentyn neu'r person ifanc angen clinigol sy'n gofyn am fynediad at faes penodol e.e. diabetes, obstetreg a gynaecoleg, trawma.

Oes



Derbyn i'r ardal oedolion lle mae angen clinigol yn cael ei ddiwallu, gyda chyngor gan y tîm pediatrig.



Nac oes

YSTYRIAETH 2:

A oes unrhyw resymau pam y gellid gofalu am blentyn neu berson ifanc yn well mewn amgylchedd pediatrig?

- Oedi datblygiadol.
- Clefyd cronig sy'n adnabyddus i'r tîm pediatrig.

Nac oes



Derbyn i'r ardal oedolion, cael cyngor gan y tîm pediatrig.



Oes

YSTYRIAETH 3:

A fyddai'n well gan y plentyn neu'r person ifanc ward bediatrig?

Na fyddai



Derbyn i'r ardal oedolion, cael cyngor gan y tîm pediatrig.



Byddai

YSTYRIAETH 4:

A oes gwely ar gael ar ward bediatrig?

Nac oes



Derbyn i'r ardal oedolion, cael cyngor gan y tîm pediatrig. Ailwerthuso'n ddyddiol.



Oes

YSTYRIAETH 5:

A fu trafodaeth a chytundeb meddygol ynghylch y derbyn a rhannu rheolaeth yn briodol gan y gwasanaethau oedolion/arbenigedd ar y wardiau pediatrig?

Na



Sicrhau trafodaeth a chytundeb meddygol, wedyn derbyn i'r ward bediatrig.



Bu

Trefnu derbyn i'r ward bediatrig.

Atodiad 6

Ffurflen Monitro ac Adolygu – Pontio a Throsglwyddo

Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth:	
Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth:	
Prif Gyswllt y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth:	
Dyddiad Cyflwyno'r Ffurflen Monitro ac Adolygu i'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth:	
Dyddiad Cyflwyno'r Ffurflen Monitro ac Adolygu i Lywodraeth Cymru:	

	Cwestiwn	Ymateb
1	Dylai fod gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fecanwaith atebolrwydd a chyflenwi clir ar waith i sicrhau bod y canllawiau pontio a throsglwyddo'n cael eu gweithredu ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd, sy'n adrodd i'r Bwrdd. A oes gennych chi fecanwaith ar waith?	
2	Ydych chi wedi dynodi Uwch-arweinydd Pontio a Throsglwyddo a fydd yn atebol am sicrhau bod y canllawiau pontio a throsglwyddo yn cael eu gweithredu, a sicrhau ansawdd y canllawiau hynny, ar draws yr holl wasanaethau sylfaenol, eilaidd, trydyddol ac yn y gymuned?	
3	Dylai fod gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion Gynllun Pontio a Throsglwyddo (THP) wedi'i ddogfennu, neu ddogfen gyfwerth. A yw'r rhain wedi'u rhoi ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth?	
4	A oes Gweithwyr Pontio a Throsglwyddo a Enwir wedi'u nodi a'u penodi o wasanaethau plant neu wasanaethau oedolion Corff y GIG i gefnogi'r broses o bontio a throsglwyddo gofal iechyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc?	
5	Pa drefniadau monitro sydd ar waith yn eich Bwrdd Iechyd neu eich Ymddiriedolaeth?	
6	Dylai fod gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fecanwaith i gofnodi argraff y plentyn a'r person ifanc/teulu/gofalwr o'r broses pontio a throsglwyddo ar ôl 6 mis a 12 mis i helpu i lywio darpariaeth y gwasanaethau yn y dyfodol. Yn ogystal, mecanwaith i gofnodi faint o bobl sydd wedi gwneud sylwadau o dan Gweithio i Wella. A oes gennych chi fecanwaith ar waith?	
7	Pa mor aml ydych chi'n monitro ac yn adolygu mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd, boddhad cleifion, gweithgarwch?	

Atodiad 7

Adnoddau defnyddiol

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol plant a phobl ifanc i helpu sefydliadau ac unigolion i sicrhau proses, ansawdd a phrofiad yr holl waith sy'n ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc (Plant yng Nghymru)

[Plant yng Nghymru | Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol](#)

Cefnogi pontio i fywyd fel oedolyn i bobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd ac sy'n bygwth bywyd (Together for Short Lives)

[Transition to Adult Services Pathway drwy Together for Short Lives](#)

Transition from children's to adults' services for young people using health or social care services (NICE) *Chwefror 2016*

<http://nice.org.uk/guidance/ng43>

Transition from children's to adults' services, Quality standards (NICE) *Rhagfyr 2016*

<http://nice.org.uk/guidance/qs140>

Transition to adult services and links to CYP voice (RCPCH)

[Transition to adult services | RCPCH](#) [Young people's experiences of health transition | RCPCH](#)

Voices from CYP with a long term condition as part of the Epilepsy12 national audit (RCPCH)

[Epilepsy12 &Us - voices from the RCPCH &Us network | RCPCH](#)

Support for parents/professionals on hidden health needs created by parent (RCPCH)

[Hidden health - a parent-led card and toolkit | RCPCH](#)

From the pond into the sea - Children's transition to adult health services (Care Quality Commission) *Mehefin 2014*

https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/CQC_Transition%20Report.pdf

Being me - supporting children and young people (RCPCH)

[Being me - supporting children and young people | RCPCH](#)

Emoji card game (RCPCH)

[Emoji card game | RCPCH](#)